Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-937
Ein cyf/Our ref LG/07594/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

SeneddPetitions@assembly.wales

6 Ionawr 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr ynghylch y Ddeiseb oddi wrth Hawliau Anifeiliaid Caerdydd ynghylch atal berwi cramenogion yn fyw.

Rwy'n gyfarwydd â Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ac yn ymwybodol o ddiddordeb y cyhoedd yn y mater hwn. Rwy'n deall bod y dystiolaeth wyddonol yn awgrymu y gall cramenogion brofi poen. Nid yw'r union ddiffiniad o boen wedi'i bennu hyd yma, fodd bynnag, ac mae'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn brin.

Mae Llywodraeth y DU wrthi'n ystyried arferion o'r fath a allai achosi poen neu ddioddefaint diangen mewn infertebrata morol fel cimychiaid, cimychiaid yr afon a chrancod. Nid yw'r anifeiliaid hyn o fewn cwmpas Deddf Lles Anifeiliaid 2006.

Gan fod disgwyl i ddeddfwriaeth bresennol yr UE gael ei diwygio dylai rhagor o waith gwyddonol gael ei wneud er mwyn ceisio pennu'r boen y gallai infertebrate ei hwynebu. Cynhaliodd y Gymdeithas Frenhinol gyfarfod arbennig ym mis Chwefror er mwyn pennu'r bylchau allweddol o ran gwybodaeth, gan gynnwys sut y dylai poen gael ei diffinio mewn anifeiliaid (gan gynnwys cramenogion).

Mae gwaith ymchwil yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ynghylch diogelu lles cimychiaid, cimychiaid yr afon a chrancod adeg eu lladd. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion sicrhau eu bod yn parhau'n ymwybodol o'r datblygiadau gwyddonol a pharhau i gydweithio â Gweinyddiaethau eraill y DU er mwyn ystyried y mater hwn ymhellach.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.